Coleg Gwent

# CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y SWYDDOGION LLYWODRAETHU

## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2025

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent ('Y Bwrdd') yn y flwyddyn academaidd hyd at 31 Gorffennaf 2025. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i Medr - y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil bod y Bwrdd wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ac wedi gweithredu o fewn ei bwerau a'r fframwaith llywodraethu fel y crynhoir yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r coleg.

1.2 Mabwysiadodd Coleg Gwent y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru (Y Cod) ym mis Hydref 2016. Mae'r Cod yn crynhoi cyfrifoldebau statudol y Bwrdd ac yn nodi'r arferion gorau a argymhellir o ran llywodraethu'r coleg. Nod Bwrdd Coleg Gwent yw bodloni'r disgwyliadau a nodir yn y Cod (a rhagori arnynt lle bo hynny'n bosibl).

## 2. AELODAETH Y BWRDD

### 2.1 Cyfansoddiad

2.1.1 Penderfynwyd bod 22 o Lywodraethwr i fod yn aelodau'r Bwrdd, sy'n cynnwys:

- 16 o Lywodraethwyr annibynnol
- Y Prifathro/Prif Weithredwr
- 2 Staff-Lywodraethwr
- 2 Fyfyriwr Addysg Bellach sy'n Llywodraethwyr
- 1 Myfyriwr Addysg Uwch sy'n Llywodraethwr

Yn ogystal â'r Llywodraethwyr, mae hyd at dri Aelod Allanol Annibynnol yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio i ddarparu haen ychwanegol o oruchwyliaeth ac arbenigedd annibynnol.

### 2.2 Cymhwysedd

2.2.1 Mae pob ymgeisydd am benodiad i'r Bwrdd yn cael gwybodaeth am y meini prawf cymhwysedd ar gyfer penodiadau i'r Bwrdd ac fel Ymddiriedolwyr Elusennol. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lofnodi datganiad yn cadarnhau eu bod yn bodloni'r meini prawf hyn. Mae'r penodiad yn amodol ar gwblhau gwiriadau cymhwysedd a gyflawnir gan y Swyddog Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys gwirio yn erbyn y Cofrestrau Cyfarwyddwyr Gwaharddedig ac Ansolfedd. Mae hefyd yn ofynnol i bob un a benodir gwblhau cais manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae aelodau'r Gorfforaeth yn llofnodi'n flynyddol i gadarnhau eu bod yn parhau i fod yn gymwys i wasanaethu.

### 2.3 Cyfnod Swydd

2.3.1 Ac eithrio'r Prifathro/Prif Weithredwr a'r Myfyrwyr-Lywodraethwyr, mae pob penodiad am gyfnod o dair blynedd. Fel arfer, caiff unigolyn wasanaethu am uchafswm o dri thymor (cyfanswm o 9 mlynedd). Mae'r Bwrdd o'r farn bod y cyfnod hwn yn galluogi Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r coleg a'r materion sy'n effeithio ar ei weithrediad. Mae hefyd yn cefnogi parhad arweinyddiaeth, gan gynnal annibyniaeth a chaniatáu ar gyfer cyflwyno safbwyntiau newydd yn rheolaidd.

2.3.2 Nid yw ailbenodiad ar ddiwedd cyfnod o dair blynedd yn awtomatig. Gall Llywodraethwyr Annibynnol ac Aelodau Allanol wneud cais i gael eu hailbenodi. Y Bwrdd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol i ailbenodi, ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth. Rhaid i Staff-Lywodraethwyr geisio cael eu hailethol gan eu cymheiriaid yn gyntaf. Wrth ystyried cais i ailbenodi, mae'r pwyllgor yn adolygu cyfraniad, ymrwymiad a phresenoldeb yr aelod ochr yn ochr ag anghenion aelodaeth presennol y Bwrdd yn ei gyfanrwydd.

2.3.3 Fel arfer, penodir Myfyrwyr-Lywodraethwyr am gyfnod o flwyddyn yn y swydd. Gellir ymestyn hyn os yw'r Bwrdd o'r farn ei fod er budd gorau'r coleg. Yn amodol ar estyniad neu ailethol, gall Myfyrwyr-Lywodraethwyr wasanaethu am hyd at gyfanswm o dair blynedd

## 2.4 Cadeirydd ac Is-gadeirydd

2.4.1 Mae'r Bwrdd yn gweithredu gyda Chadeirydd ac un Is-gadeirydd. Etholir pob un gan y Bwrdd i wasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd. Yn amodol ar gael eu hailethol, gall unigolion wasanaethu am dri thymor (cyfanswm o chwe blynedd) yn y rolau hyn. Mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu hethol bob yn ail flwyddyn i gefnogi'r gwaith o gynllunio olyniaeth effeithiol a pharhad arweinyddiaeth.

2.4.2 Drwy gydol 2024-25, parhaodd Mr Mark Langshaw fel Cadeirydd y Llywodraethwyr. Etholwyd Mark i'r rôl am y tro cyntaf ym mis Awst 2018 ac wedyn cafodd ei ailethol yn 2020 ac yna eto yn 2022 i wasanaethu tan fis Gorffennaf 2024. Cafodd ei benodiad fel Cadeirydd ei ymestyn am flwyddyn i ddarparu parhad arweinyddiaeth wrth i'r coleg benodi Prifathro/Prif Weithredwr newydd. Ymddeolodd Mr Langshaw o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025, ar ôl cwblhau 9 mlynedd o wasanaeth fel Llywodraethwr.

2.4.3 Yr Is-gadeirydd yn ystod 2024-25 oedd Mrs Sue Ball. Cafodd Sue ei hethol i'r rôl am y tro cyntaf yn 2021 (i ddechrau i gwblhau cyfnod yr Is-gadeirydd blaenorol) ac mae wedi cael ei hailbenodi ddwywaith, y tro diwethaf ym mis Gorffennaf 2023.

2.4.4 Cynhaliwyd etholiad ganol 2025 ar gyfer rôl Cadeirydd y Llywodraethwyr ac yn dilyn hynny penodwyd Mrs Ball i wasanaethu am 2 flynedd fel Cadeirydd o 1 Awst 2025 ymlaen. Yna, cynhaliwyd etholiad arall ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd ac mae Mr Chris Freegard wedi cael ei benodi i wasanaethu am 2 flynedd o 1 Awst 2025 ymlaen. Mae'r Bwrdd wedi trafod mesurau cynllunio olyniaeth ar gyfer y ddwy rôl yn y flwyddyn i ddod, a bydd yn eu rhoi ar waith.

## 2.5 Recriwtio a Phenodiadau

2.5.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth yn goruchwylio'r broses recriwtio. Mae'n llunio rhestr fer ac yn cwrdd â'r holl ymgeiswyr posibl. Mae pob penodiad yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd, ar argymhelliad y pwyllgor.

2.5.2 Mae'r broses recriwtio yn cael ei llywio gan adolygiad rheolaidd o broffil sgiliau'r Bwrdd. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y Bwrdd ystod addas o sgiliau a phrofiad i'w gefnogi i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod y gwerth y gall aelodaeth fwy amrywiol ei gynnig i'r broses o wneud penderfyniadau ac mae wedi gwneud cyfres o ymrwymiadau sy'n ymwneud ag amrywiaeth ei aelodaeth (gweler Adran 3).

2.5.3 Mae staff a myfyrwyr-lywodraethwyr yn cael eu hethol gan eu cymheiriaid ond maent hefyd yn cwrdd â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth i drafod eu rôl cyn i'w penodiad gael ei gymeradwyo'n derfynol gan y Bwrdd.

## 2.6 Cynefino a Datblygu

2.6.1 Mae gan aelodau sydd newydd eu penodi fynediad at Becyn Cynefino electronig. Mae hyn yn cynnwys copïau o ddogfennau llywodraethu allweddol gan gynnwys:

- Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent
- Rheolau Sefydlog y Gorfforaeth
- Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Ariannol
- Y Cod Llywodraethu Da
- Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru
- Yr Ymddiriedolwr Hanfodol - Canllawiau'r Comisiwn Elusennau

Cynhwysir hefyd wybodaeth am dîm rheoli'r coleg a chopïau o'r Cynllun Strategol a'r Strategaethau Adrannol a Chwricwlwm tanategol. Gellir darparu gwybodaeth mewn fformatau eraill. Mae deunyddiau cynefino'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

2.6.2 Mae aelodau newydd yn mynychu cyfarfodydd cynefino gyda'r Swyddog Llywodraethu, y Cadeirydd, y Prifathro/Prif Weithredwr a'r Is-brifathrawon. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi trosolwg o sut mae'r Bwrdd yn gweithredu, strwythur y coleg a'r Genhadaeth a'r Weledigaeth strategol. Anogir pob Llywodraethwr newydd hefyd i fanteisio ar y cyfle i ymweld â phob un o'r campysau ac i fynychu digwyddiadau ar draws y coleg drwy gydol y flwyddyn.

2.6.3 Mae gan bob aelod fynediad at y Swyddog Llywodraethu ac amrywiaeth o gyngor ac arweiniad sydd ar gael drwy sianel Timau'r Gorfforaeth. Ar ôl cael eu penodi, mae Llywodraethwyr yn cwblhau modiwlau hyfforddiant gorfodol mewn Diogelu a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Maent hefyd yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae pob cyfarfod Bwrdd yn cynnwys Briff Datblygu ar agwedd benodol ar y coleg neu ei lywodraethiant. Yn ystod 2024-25, roedd y sesiynau briffio hyn yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Diogelu a Lles Dysgwyr
- Darpariaeth AU a phroffil ansawdd
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Amrywiaeth a Chynllun Cydraddoldeb Strategol y coleg.

2.6.4 Mae Seminarau Strategaeth sy'n cynnwys Llywodraethwyr a phob uwch arweinydd yn rhoi cyfle i archwilio materion strategol allweddol yn fanylach. Yn ystod 2024-25, cymerodd Llywodraethwyr ran mewn tri Seminar Strategaeth. Roedd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar gynllunio'r cwricwlwm, iechyd ariannol, diwylliant a chenhadaeth sefydliadol a datblygu'r Ystâd.

2.6.5 Anogir llywodraethwyr hefyd i gymryd rhan yn nigwyddiadau ehangach y coleg. Mae mynychu digwyddiadau'r coleg yn cefnogi eu datblygiad a'u dealltwriaeth o waith y coleg. Yn ystod 2024-25, bu Llywodraethwyr mewn digwyddiadau gan gynnwys y Noson Gwobrau Dysgwyr a'r Gwobrau Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Roeddent hefyd yn cefnogi amrywiaeth o berfformiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr drwy gydol y flwyddyn ac yn bresennol mewn Brecinio Ymgysylltu â Chyflogwyr. Mae Cod Ymddygiad, Gwerthoedd ac Ymddygiad y Gorfforaeth yn nodi disgwyliad y bydd Llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu lle bynnag y bo modd bob blwyddyn.

## 2.7 Aelodau yn ystod 2024-25

2.7.1 Y Llywodraethwyr a'r Aelodau Allanol a wasanaethodd ar Gorfforaeth Coleg Gwent yn ystod 2024-25 oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Mr Mark Langshaw MBE | Cadeirydd y Llywodraethwyr | Wedi ymddeol ar 31 Gorffennaf 2025 |
| Mrs Sue Ball | Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr | |
| Ms Nicola Gamlin | Y Prifathro/Prif Weithredwr | Penodwyd ym mis Medi 2024 |
| Mr Anthony Basnett | Llywodraethwr | |
| Mr Moawia Bin-Sufyan | Llywodraethwr | |
| Mr James Bird | Llywodraethwr | Penodwyd Ionawr 2025 |
| Mrs Elizabeth Brimble | Llywodraethwr | |
| Mr Andrew Clark | Llywodraethwr | |
| Mr Joshua Davies | Myfyriwr-Lywodraethwr (AB) | Gadawodd Gorffennaf 2025 |
| Ms Delyth Evans | Llywodraethwr | |
| Mr Christopher Freegard OBE | Llywodraethwr | |
| Mrs Bailjit Gill | Llywodraethwr | |
| Mr Andrew Johns | Llywodraethwr | Penodwyd Ionawr 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| Mr John Phelps | Llywodraethwr | |
| Mr Matthew Preece | Llywodraethwr | |
| Mr Timothy Rathbone | Llywodraethwr | |
| Ms Maria Retter | Staff-Lywodraethwr (Addysgu) | Penodwyd ym mis Gorffennaf 2024 a gadawodd ym mis Awst 2025 |
| Ms Josephine Rogers | Myfyriwr-Lywodraethwr (AB) | Penodwyd o fis Awst 2024 i fis Gorffennaf 2025 |
| Mrs Elizabeth Swaffield | Llywodraethwr | |
| Mr Huw Watkins | Myfyriwr-Lywodraethwr (AU) | Penodwyd Rhagfyr 2024 |
| Mr Gareth Watts | Llywodraethwr | |
| Mrs Joanne Weaver | Staff-Lywodraethwr Staff (Cymorth Busnes) | Penodwyd Rhagfyr 2024 |
| Mr Richard Brown | Aelod Allanol, Pwyllgor Archwilio | Penodwyd Hydref 2024 |
| Mrs Farishna Chohan-Solanki | Aelod Allanol, Pwyllgor Archwilio | |

## 2.8 Treuliau

2.8.1 Mae'r holl Lywodraethwyr ac Aelodau Allanol yn gwasanaethu'n wirfoddol ac yn ddi-dâl. Gallant hawlio costau teithio a chynhaliaeth rhesymol sy'n deillio'n uniongyrchol o'u rôl. Mae treuliau'n cael eu hawlio drwy borth Adnoddau Dynol hunanwasanaeth y coleg ac yn cael eu gwirio a'u hawdurdodi gan y Swyddog Llywodraethu. Yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025, hawliodd Llywodraethwyr gyfanswm o £649.00.

# 3. AMRYWIAETH Y BWRDD

## 3.1 Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd a'r Cynllun Gweithredu

3.1.1 Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar Ddatganiad Amrywiaeth y Bwrdd. Mae hwn yn nodi ymrwymiadau'r Bwrdd, ynghyd â thargedau sy'n ymwneud ag amrywiaeth aelodau'r Bwrdd. Adolygir y Datganiad Amrywiaeth a'r targedau yn flynyddol ac maent ar gael ar wefan y coleg.

3.1.2 Ar sail yr ymrwymiadau yn ei Ddatganiad Amrywiaeth, mae'r Bwrdd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Amrywiaeth. Mae hwn yn nodi wyth Cam Gweithredu Allweddol:

- Ymgorffori amrywiaeth ac ymarfer cynhwysol yn arferion gwneud penderfyniadau'r Bwrdd ac ar draws ei holl waith.
- Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol yr Aelodau o faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth.
- Sicrhau bod proses recriwtio'r Bwrdd yn cefnogi'r ymrwymiadau a nodir yn Natganiad Amrywiaeth y Bwrdd
- Datblygu rhwydwaith ehangach o gysylltiadau (unigolion a sefydliadau) i gefnogi
- proses recriwtio fwy amrywiol.
- Cysoni'r gwaith o gofnodi data amrywiaeth y Bwrdd yn well â'r hyn sy'n cael ei gadw gan yr Adran Adnoddau Dynol ar staff y coleg.
- Monitro cynnydd (drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth) yn erbyn yr ymrwymiadau a nodir
- yn Natganiad Amrywiaeth y Bwrdd.
- Cyhoeddi Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd a data ar amrywiaeth y Bwrdd ar wefan y coleg.
- Adolygu a diweddaru Datganiad Amrywiaeth y Bwrdd yn flynyddol.

3.1.3 **Mae'r cyflawniadau a'r camau gweithredu hyd yma yn cynnwys:**

- Staff a Llywodraethwyr Coleg Gwent oedd y cyntaf yng Nghymru i gwblhau hyfforddiant gwrth-hiliaeth Cam 1 a hwyluswyd gan Race Council Cymru. Roedd yr hyfforddiant hwn yn cyd-fynd â gwaith arloesol Llywodraeth Cymru ar greu Cymru Wrth-hiliol. Mae rhai Llywodraethwyr hefyd wedi cwblhau hyfforddiant Cam 2.
- Mae prosesau recriwtio'r Bwrdd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae dull newydd, mwy cynhwysol eisoes wedi helpu i ddenu ystod ehangach o ymgeiswyr ac mae'r Bwrdd yn edrych ar gynlluniau mentora a fydd yn cefnogi ymgeiswyr y dyfodol o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

- Cyflwynir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'w hadolygu gyda phob diweddariad polisi cyn i'r Bwrdd eu cymeradwyo.
- Cwblhaodd llywodraethwyr fodiwl hyfforddiant ar-lein newydd ar Amrywiaeth.
- Mae polisïau'r Bwrdd wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant.
- Mae papurau a gyflwynwyd gan y rheolwyr i'r Bwrdd bellach yn cynnwys asesiad o effaith ar grwpiau gwarchodedig.
- Mae dadansoddiad ychwanegol o ddata yn ôl nodwedd warchodedig yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau allweddol fel digwyddiadau Diogelu, cwynion ac ati.
- Fel Llywodraethwr Cyswllt Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, mae Mrs B Gill yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ynghyd â'r Swyddog Llywodraethu.
- Mae'r Swyddog Llywodraethu yn parhau i weithio gyda Rheolwr Amrywiaeth, Cynhwysiant a Lles y coleg i ddatblygu cysylltiadau ar draws amrywiaeth eang o gymunedau ac i nodi cyfleoedd i Lywodraethwyr ymgysylltu â digwyddiadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Yn ystod 2024-25, bu Llywodraethwyr mewn amrywiaeth eang o arddangosfeydd, perfformiadau a dathliadau ar draws y coleg. Roedd hyn yn cynnwys Ffair Amrywiaeth ac ymweliad Cymraeg gan Weinidogion Cymru.

## 3.2 Amrywiaeth y Bwrdd yn ystod 2024-25


3.2.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth yn adolygu ac yn cynghori ar broffiliau sgiliau ac amrywiaeth y Bwrdd yn rheolaidd. Gwelwyd newid graddol ym mhroffil yr ymgeiswyr i'w penodi i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio ac mae'r Bwrdd wedi cydnabod y bydd angen ffocws ac ymrwymiad hirdymor i sicrhau aelodaeth wirioneddol amrywiol, gan sicrhau hefyd bod gan y Bwrdd y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

3.2.2 Adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth ddadansoddiad manwl o broffil amrywiaeth a sgiliau'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025. Crynhoir data o'r adroddiad hwnnw isod mewn perthynas â'r targedau a nodir yn Natganiad Amrywiaeth y Bwrdd (mae'r data'n cynnwys dau Aelod Allanol y Pwyllgor Archwilio).

3.2.3 <u>Amrywiaeth y Bwrdd ym mis Chwefror 2025:</u>

### Rhywedd


<u>Ein hymrwymiad</u> - Cynnal cydbwysedd o aelodau gwrywaidd a benywaidd yn ogystal ag aelodau sy'n ystyried eu hunain yn anneuaidd neu drawsryweddol.
Mae cydbwysedd rhwng y rhywiau wedi amrywio dros y blynyddoedd ac yn ystod 2024-25 roedd mwy o aelodau gwrywaidd na benywaidd. Un aelod o'r Bwrdd yn ystod 2024-25 a nododd eu bod yn fenywaidd ac yn drawsryweddol.



## Ethnigrwydd

Ein hymrwymiad - adlewyrchu amrywiaeth ethnig ein cymunedau yn well a chael o leiaf pum aelod o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol.

O'i gymharu ag Ebrill 2024, roedd aelodaeth y Bwrdd yn llai amrywiol o ran ethnigrwydd gyda'r aelodau hynny a oedd yn nodi eu bod yn 'Gwyn Prydeinig' wedi cynyddu o 70% i 88%.




## Rhywioldeb

Ein hymrwymiad - Cynyddu nifer yr aelodau o'r gymuned LHDTC+.
Dim ond ers 2021/22 y mae'r data hwn wedi cael ei gasglu. Yn ystod 2024-25, nododd dau aelod o'r Bwrdd eu bod yn LHDTC+.

## Anabledd


Ein hymrwymiad - Cynyddu nifer yr aelodau sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd tymor hir.
Yn ystod 2024-25, roedd dau aelod o'r Gorfforaeth wedi datgan cyflwr iechyd hirdymor.

## Yr Iaith Gymraeg

Ein hymrwymiad - Cael o leiaf pedwar aelod sy'n siarad Cymraeg (naill ai'n rhugl neu'n ddysgwyr lefel uwch).
Ym mis Chwefror 2025, nododd dau aelod o'r Gorfforaeth eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac un eu bod yn ddysgwr lefel uwch.

## Oedran

Nid yw'r Bwrdd wedi gwneud ymrwymiad penodol mewn perthynas ag oedran. Fodd bynnag, cydnabyddir bod ystod dda o oedrannau yn sicrhau cydbwysedd o safbwyntiau
a phrofiad. Ym mis Chwefror 2025, oedran cyfartalog aelodau'r Gorfforaeth oedd 51 oed (o'i gymharu â 54 oed ym mis Ebrill 2024).




# 4. GWRTHDARO BUDDIANNAU

## 4.1 Datgan Buddiannau

4.1.1 Mae eitem ar yr agenda wedi'i chynnwys ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd a'r pwyllgor er mwyn i aelodau ddatgan unrhyw fuddiant mewn perthynas ag eitemau a phynciau penodol i'w trafod. Mae'r holl fuddiannau a ddatganwyd, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd, yn cael eu cofnodi yn y cofnodion yn ogystal ag mewn atodiad ar wahân i'r Gofrestr Buddiannau.

4.2 **Cofrestr o Fuddiannau Aelodau 2024-25**

| Enw | Manylion buddiannau |
|---|---|
| **Susan Ball** | • Cyn Weithiwr - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Ymddeolodd 01/08/21 ond mae'n dal i wneud gwaith ymgynghori)<br>• Aelod o Gyngor Plwyf Eglwysig Eglwys Sant Marks, Casnewydd<br>• Ymgymryd â gwaith ar ran y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Rheoleiddiwr) gan weithredu fel Cadeirydd Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer |
| **Anthony Basnett** | • Gweithiwr - Broadcom Ltd (VMWARE Ltd. gynt) ers 17.06.19<br>• Cyn weithiwr, Cisco International Ltd. (daeth i ben ar 16.06.19)<br>• Gwraig - un o weithwyr Coleg Gwent |
| **Moawia Bin-Sufyan** | • Gwaith cyflogedig - Cyfarwyddwr Buddsoddi, Governor Investments Ltd<br>• Gwaith cyflogedig - Cydlynydd Rhanbarthol, Care After Combat<br>• Cyfarwyddwr Anweithredol - Tai Hendre/Hafod (YN CYNNWYS RÔL FEL Cyfarwyddwr, Yellow Wales)<br>• Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel - Llywodraeth Cymru (gan gynnwys paneli ar gyfer penodi Cadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) a Chadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi)<br>• Arsyllwr Lleyg - Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (PECS) Gwasanaethau Hebrwng a Chystodaeth Carcharorion<br>• Cyfarwyddwr Anweithredol - Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa<br>• Aelod - Panel Cynghori a Goruchwylio Annibynnol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru<br>• Aelod - Common Purpose UK Advisory Group<br>• Trysorydd ac Aelod o'r Cyngor - Cyngor Sant Ioan, Caerdydd a Bro Morgannwg<br>• Aelod o'r Panel - Panel Amrywiaeth ITV Cymru<br>• Aelod Gweithredol o'r Bwrdd - Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig - Cangen Caerdydd a'r Cylch<br>• Cadeirydd Grŵp - Safer Vale - Cynghori ar Gysylltiadau Hil Cymunedol<br>• Llywodraethwr AALl - Ysgol Gynradd Oak Field<br>• Ynad Heddwch (YH) - Canol, De Morgannwg a Gwent<br>• Aelod - SACRE Bro Morgannwg<br>• Lifreiwr - The Worshipful Company of Educators<br>• Lifreiwr - The Worshipful Company of Spectacle Makers<br>• Aelod – Guild of Freemen of the City of London<br>• Ymddiriedolwr - Volunteering Matters (ers 01.10.23) |
| **James Bird** | • Dim buddiannau wedi'u datgan |
| **Elizabeth Brimble** | • Cyn Gyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer, Cyngor y Gweithlu Addysg (daeth i ben 31.08.23)<br>• Aelod o'r Bwrdd, Congress Theatre Co. (Elusen Gofrestredig 1132657)<br>• Mab yn swyddog gwaith achos yn y Tîm Addasrwydd i Ymarfer yng Nghyngor y Gweithlu Addysg |
| **Andrew Clark** | • Merch yn cael ei chyflogi gan goleg AB arall yng Nghymru<br>• Aelod Bwrdd- CCDG Ltd (Yn Masnachu fel Gyrfa Cymru) (ers 01.08.21)<br>• Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd y Cwmni, Maple(140) Ltd.<br>• Cymrawd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)<br>• Cyn-weithiwr, Llywodraeth Cymru (ymddeolodd 31.01.21)<br>• Aelod o Fwrdd Arholi AQA (daeth i ben ar 31.03.22)<br>• Cyn-aelod Cyfetholedig y Pwyllgor Archwilio a Risg<br>• Cyn Aelod Annibynnol, Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, Archwilio Cymru (ers 01.07.21) |
| **Joshua Davies** | • Myfyriwr, Coleg Gwent |
| **Delyth Evans** | • Aelod, Bwrdd Chwaraeon Cymru<br>• Ymddiriedolwr, Sefydliad Alacrity<br>• Ymddiriedolwr yr Urdd<br>• Cadeirydd, S4C (ers 01/05/25) |
| **Christopher Freegard** | • Cyn Lywodraethwr, Prifysgol De Cymru (daeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020)<br>• Cyn Gyfarwyddwr Prosiect Kaleidoscope |
| **Nicola Gamlin** | • Aelod, Sefydliad Rheolaeth Siartredig<br>• |
| **Bailjit Gill** | • Cyflogaeth: Uwch Reolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Tŷ'r Cwmnïau |
| **Andrew Johns** | • Aelod, Cyd-bwyllgor Archwilio Heddlu Gwent |

| Enw | Manylion buddiannau |
|---|---|
| **Mark Langshaw** (Cadeirydd) | • Cyfarwyddwr Continental Teves (Gwaith Cyflogedig). Mae'r cwmni'n gwsmer hyfforddiant i'r Coleg ac mae'n cyflogi prentisiaid sy'n mynychu'r Coleg.<br>• Cadeirydd, Prosiect Effaith Blaenau Gwent, BG CBC (di-dâl)<br>• Cadeirydd Bwrdd Menter Blaenau Gwent (di-dâl)<br>• Cadeirydd y Bwrdd Cynghori Strategol, Tech Valleys (di-dâl)<br>• Cyfarwyddwr, Fforwm Modurol Cymru (di-dâl)<br>• Cyfarwyddwr, Fforwm Modurol Cymru (di-dâl)<br>• Gwirfoddolwr (Pencampwr Cyfeillion Dementia), Cymdeithas Alzheimer's<br>• Aelod, Grŵp Gweithredu Dinas sy'n Deall Dementia Cyngor Dinas Casnewydd<br>• Aelod, Fforwm Darparwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf<br>• Aelod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Grŵp Cyswllt Gweithredol Gofal Cartref |
| **John Phelps** | • Ymgynghorydd Addysg a Hyfforddiant Addysg Bellach hunangyflogedig |
| **Matthew Preece** | • Hunangyflogedig - Ymgynghorydd Busnes (o dan fasnachfraint 'Business Doctor' gynt) - gwasanaeth ymgynghori i fusnesau ledled Gwent am dâl. Mae cleientiaid yn cynnwys cwmni sy'n darparu gwasanaethau diogelwch i'r coleg.<br>• Is-lywydd BNI Celtic - Grŵp Rhwydweithio Atgyfeiriadau yng Nghasnewydd<br>• Gwraig - Cyfarwyddwr Ariannol, Aviva |
| **Timothy Rathbone**<br>Penodwyd 1 Ebrill 2024 | • Ymddiriedolwr a Thrysorydd, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent<br>• Cymrawd y Sefydliad Technoleg Peirianneg<br>• Cymrawd Sefydliad Siartredig Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu<br>• Lifreiwr - The Worshipful Company of Plumbers<br>• Cyn Gyfarwyddwr (gwaith cyflogedig) - Hoare Lea (ymddeolodd ar 30/04/24) |
| **Maria Retter** | • Aelod Staff, Coleg Gwent<br>• Llywodraethwr, Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga |
| **Josephine Rogers** | • Myfyriwr, Coleg Gwent<br>• Gwirfoddolwr, MIND Casnewydd<br>• Dylunydd Gwasanaeth Cymheiriaid, Pro-Mo Cymru |
| **Lizzie Swaffield** | • Gweithiwr, Education Endowment Foundation<br>• Cyfranddaliwr, Moordale Ltd. (Busnes Gwasanaethau Peirianneg)<br>• Gŵr - perchennog, Moordale Ltd. |
| **Huw Watkins** | • Myfyriwr (AU) Coleg Gwent |
| **Gareth Watts** | • Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Cyflogedig ers 01.08.23)<br>• Cyn-bennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, Senedd Cymru (Daeth y gyflogaeth i ben ar 31.07.23)<br>• Aelod o'r Corff Llywodraethu, Ysgol Meadowbank, Caerdydd<br>• Aelod Cydbwyllgor Archwilio - Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Heddlu Gwent<br>• Cyn Aelod Allanol Annibynnol o Bwyllgor Archwilio Coleg Gwent |
| **Joanne Weaver** | • Perchennog/Cyfarwyddwr Bwyd da Catering<br>• Aelod Staff, Coleg Gwent |
| **Farishna Chohan-Solanki** (Aelod Allanol) | • Cyflogai - Uwch Reolwr Rheolaeth Ariannol y Grŵp, Legal and General<br>• Cyfarwyddwr a Chyfranddaliwr, Podmed Podiatry |
| **Richard Brown** | • Cyflogaeth - Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol, Awdurdod Monitro Annibynnol<br>• Cyn Weithiwr, Asiantaeth Ardystio Cerbydau (Prif Swyddog Cyllid ac Adnoddau) |

### 4.3 Contractau ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau

4.3.1 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025, ni ddyfarnwyd unrhyw gontract am nwyddau na gwasanaethau gan Goleg Gwent i unrhyw aelod o Gorfforaeth neu bwyllgor, neu i unrhyw sefydliad y mae gan aelod gysylltiad uniongyrchol ag ef, neu fuddiant ariannol ynddo, ac eithrio wrth fynd ar drywydd ei fusnes cydnabyddedig o ddarparu addysg a hyfforddiant er budd y gymuned leol.

## 5. LLYWODRAETHU A RHEOLI PERFFORMIAD

### 5.1 Dogfennau llywodraethu

5.1.1 Mae Offeryn ac Erthyglau a Rheolau Sefydlog Bwrdd Coleg Gwent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Yn ystod adolygiad Mai 2021, craffwyd ar y ddwy ddogfen gan gynghorwyr cyfreithiol y Bwrdd.

Cafodd y dogfennau eu hadolygu a'u cymeradwyo ymhellach ym mis Gorffennaf 2024 ac mae copïau o'r fersiwn ddiweddaraf ar gael ar wefan y coleg. Byddant yn cael eu hadolygu nesaf yn ystod 2025-26.

5.1.2 Cefnogir gwaith y Bwrdd gan nifer o is-bwyllgorau (gweler adran 6). Mae gan bob un Gylch Gorchwyl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a rhaglen waith flynyddol sy'n cyd-fynd â chylch busnes y coleg. Cymeradwywyd Atodlen Dirprwyo i sicrhau cysondeb ac eglurder yn y broses o wneud penderfyniadau.

## 5.2 Perfformiad y Bwrdd

5.2.1 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ragoriaeth a gwelliant parhaus yn ansawdd y llywodraethu. I gefnogi hyn, mae is-bwyllgorau'n asesu eu perfformiad yn flynyddol ac yn cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer gwella. Mae pob llywodraethwr hefyd yn llenwi Holiadur Hunan-asesu Blynyddol lle maent yn myfyrio ar berfformiad y Bwrdd yn ei gyfanrwydd ac ar eu perfformiad a'u hanghenion datblygu unigol eu hunain. Ar ôl llenwi'r holiadur, cynhelir cyfarfodydd un-i-un gyda'r Cadeirydd.

5.2.2 Rhoddir dadansoddiad o'r ymatebion a'r adborth i'r Bwrdd, ac ar ôl hynny cytunir ar Gynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn. Mae'r ymatebion hefyd yn cyfrannu at ddrafftio'r Adroddiad Hunanwerthuso Llywodraethu Blynyddol a chynllunio sesiynau briffio datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## 5.3 Rheoli Perfformiad ac Adrodd

5.3.1 Cymeradwyodd y Bwrdd Weledigaeth, Cenhadaeth a Chynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2021-2026. Datblygwyd y rhain drwy broses ymgynghori ac mewn cydweithrediad â rheolwyr y coleg. Hefyd, cafodd set o Strategaethau Adrannol a Chwricwlwm eu cymeradwyo, ynghyd â Chynlluniau Gweithredu manwl ar gyfer pob un. Mae is-bwyllgorau'r Bwrdd wedi monitro cynnydd yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu hyn. Adroddir ar Berfformiad Ariannol a rhagolygon i gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Mae'r wybodaeth wedyn yn cael ei rhannu â'r Bwrdd llawn drwy adroddiad gan y pwyllgor. Yn yr un modd, mae recriwtio ac ansawdd dysgwyr yn cael eu monitro drwy'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd sy'n darparu adroddiad i'r Bwrdd. Mae cynnydd ar brosiectau cyfalaf sylweddol yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, gyda 'dangosfyrddau' prosiect manwl yn cael eu rhannu'n rheolaidd â'r Bwrdd llawn. Mae'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn craffu ar Adroddiad Hunan-asesu'r Coleg ac yn monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Datblygu Ansawdd ac yn adrodd i'r Bwrdd ar y rhain. Mae'r Prifathro hefyd yn cyflwyno adroddiad i bob cyfarfod Bwrdd yn amlinellu datblygiadau allweddol yn y coleg ac ar draws y sector Addysg Bellach.

5.3.2 Cytunwyd ar set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol trosfwaol ac adroddwyd ar berfformiad yn erbyn y rhain i'r Bwrdd bob tymor yn ystod 2024-25 drwy grynodeb 'dangosfwrdd' un dudalen. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad yn rhoi esboniad clir i'r Bwrdd, rheolwyr a staff o sut mae perfformiad cyffredinol y coleg yn cael ei fonitro a sut mae perfformiad unigolion a thimau yn cyfrannu at gyflawni Nodau Strategol y coleg. Mae'r gwaith o reoli perfformiad yn cael ei adolygu'n gyson, ac yn ystod 2025 cymeradwyodd y Bwrdd Ddatganiad o Weledigaeth a Phwrpas newydd, ynghyd â phedwar Uchelgais Strategol cyffredinol. Bydd Cynllun Strategol newydd, ynghyd ag uchelgeisiau strategol, yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â staff erbyn dechrau 2026.

5.3.3 Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd ar feysydd allweddol o gyfrifoldeb llywodraethu drwy ddiweddariadau sicrwydd rheolaidd. Ategir y rhain gan adborth gan Lywodraethwyr Cyswllt sy'n mynychu cyfarfodydd grwpiau llywio gweithredol ar ran y Bwrdd. Mae presenoldeb Llywodraethwyr Cyswllt yn sicrhau bod unrhyw bryderon neu faterion sy'n

dod i'r amlwg yn cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd yn gynnar. Mae'r Llywodraethwyr Cyswllt yn ymdrin â chwe maes allweddol ac yn ystod 2024-25 roeddent fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Llywodraethwr Cyswllt - Diogelu | Mrs E Brimble |
| Llywodraethwr Cyswllt - Amrywiaeth a Chynhwysiant | Mrs B Gill |
| Llywodraethwr Cyswllt - Datblygu a Datgarboneiddio'r Ystâd | Mr T Rathbone |
| Llywodraethwr Cyswllt - Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd | Mr J Phelps |
| Llywodraethwr Cyswllt - Rheoli Gwybodaeth/Seiberddiogelwch | Mr A Clark |
| Llywodraethwr Cyswllt - Gwella Ansawdd* | Mr A Johns |

*Mae hon yn swydd newydd a fydd yn cael ei rhoi ar waith yn llawn o fis Medi 2025 ymlaen

### 5.4 Bod yn agored ac yn dryloyw

5.4.1 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn atebol yn y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes. I gefnogi'r ymrwymiad hwn, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Polisi Mynediad at Wybodaeth sy'n ymwneud â Busnes Corfforaethol. Mae'r polisi hwn yn nodi'r broses a'r meini prawf i'w defnyddio pan wneir penderfyniad i ddosbarthu gwybodaeth yn wybodaeth Gyfrinachol.

5.4.2 Mae eitem ar yr agenda wedi'i chynnwys ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd a'r pwyllgor i drafod dosbarthiad cynnwys y cyfarfod ac unrhyw bapurau ategol. Mae'r dosbarthiad yn seiliedig ar y meini prawf a nodir yn y polisi ac adolygir penderfyniadau ar ddosbarthiad o bryd i'w gilydd.

5.4.3 Mae agendâu cyfarfodydd y Bwrdd ar gael ar wefan y coleg, ynghyd â gwybodaeth am sut i ofyn am gopïau o Gofnodion nad ydynt yn gyfrinachol a phapurau ategol. Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae Cynllun Cyhoeddi a gyhoeddwyd ar wefan y coleg yn amlinellu'r math o wybodaeth a gedwir gan Goleg Gwent.

## 6. GWEITHGARWCH Y BWRDD A'R PWYLLGORAU

### 6.1 Cyfarfod bwrdd

6.1.1 Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau ar un o safleoedd campws y coleg fel arfer. Mae cyfleusterau cyfarfod hybrid ar gael hefyd. Cyfarfu'r Bwrdd bum gwaith yn ystod 2024-25 ar:

- 22 Hydref 2024
- 10 Rhagfyr 2024
- 25 Mawrth 2025
- 20 Mai 2025
- 2 Gorffennaf 2025

6.1.2 Y cworwm y cytunwyd arno ar gyfer cyfarfodydd/penderfyniadau'r Bwrdd a'i bwyllgorau yw presenoldeb 50% o aelodau cymwys. Roedd cworwm yn holl gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

6.1.3 Yn unol â Rheoliadau Ariannol y coleg, mae'r Bwrdd yn cymeradwyo pob gwariant cyfalaf dros £250,000. Yn ystod 2024-25, cymeradwyodd y Bwrdd wariant ar ôl-groniadau cynnal a chadw ac mewn perthynas â datblygu Campws Crosskeys.

6.2 **Pwyllgorau**

6.2.1 Cefnogir gwaith y Bwrdd gan bum is-bwyllgor. Mae gan bob pwyllgor Gylch Gorchwyl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae gan bob pwyllgor gynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sy'n cyd-fynd â'u Cylch Gorchwyl. Mae strwythur y pwyllgor yn galluogi adolygiad a thrafodaeth fanylach o feysydd penodol ac yn cefnogi Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth fanylach o agweddau penodol ar y coleg.

6.2.2 Mae pob pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd, gan grynhoi ei weithgareddau, tynnu sylw at faterion allweddol i'r Bwrdd eu nodi a gwneud argymhellion ar eitemau i'w cymeradwyo. Darperir copïau ategol o gofnodion drafft a dogfennau allweddol hefyd er gwybodaeth. Crynhoir eitemau er gwybodaeth a sicrwydd mewn adroddiad ar wahân.

6.2.3 Dyma'r pwyllgorau:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | Cadeirydd - Christopher Freegard |
| Y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd | Cadeirydd - Elizabeth Swaffield |
| Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau | Cadeirydd – Anthony Basnett |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth | Cadeirydd – Sue Ball |
| Y Pwyllgor Taliadau | Cadeirydd - Mark Langshaw |

6.3 **Pwyllgor Archwilio**

6.3.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gweithredu o fewn gofynion
Cod Ymarfer Archwilio (ACOP) AB Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys pedwar Llywodraethwr ac Aelodau Allanol ychwanegol. Mae ei Gylch Gorchwyl wedi'i groesgyfeirio â'r patrwm a nodir yn yr ACOP. Mae gan sawl aelod o'r pwyllgor brofiad archwilio, cyfrifeg neu lywodraethu arbenigol cyfredol neu ddiweddar.

6.3.2 Nid yw aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys Cadeirydd y Gorfforaeth na'r Prifathro/Prif Weithredwr na'r Staff a'r Myfyrwyr sy'n Llywodraethwyr. Yn ogystal, nid oes unrhyw aelodau o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Prifathro a'r Is-brifathro (Adnoddau a Chynllunio) yn mynychu holl gyfarfodydd y pwyllgor ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae aelodau eraill o'r Uwch Dîm Arwain yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol yn ôl yr angen, i gefnogi trafodaethau penodol.

6.3.3 Mynychodd cynrychiolwyr gwasanaeth Archwilio Mewnol y coleg (TIAA Ltd.) a'r Archwilwyr Allanol (PwC) bob cyfarfod o'r pwyllgor yn ystod 2024-25. Cynhaliodd y pwyllgor drafodaethau preifat gyda'r ddau gynrychiolydd ym mis Rhagfyr 2024. Cafodd holl staff y coleg, (gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu a'r Prifathro) eu heithrio o'r trafodaethau hyn.

6.3.4 Yn 2024-25, cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bum gwaith ar:

- 26 Tachwedd 2024
- 4 Mawrth 2025
- 17 Mawrth 2025
- 6 Mai 2025
- 1 Gorffennaf 2025

Roedd y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2025 yn gyfarfod ychwanegol yn benodol i adolygu argymhellion y Panel Tendro mewn perthynas â dyfarnu contractau ar gyfer

gwasanaethau Archwilio Mewnol ac Allanol. Roedd cworwm ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn.

6.3.5 Yn dilyn pob cyfarfod, mae'r pwyllgor yn darparu adroddiad diweddaru i'r Bwrdd ynghyd â chopïau o'r cofnodion drafft a'r papurau perthnasol. Mae'r pwyllgor hefyd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol manwl i'r Bwrdd fel sy'n ofynnol gan yr ACOP. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o fusnes y pwyllgor ac yn rhoi barn y Pwyllgor Archwilio ar brosesau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu'r coleg. Mae barn y Pwyllgor Archwilio yn seiliedig ar ei waith ei hun a gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol am y flwyddyn, gydag Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol yn cael ei gyflwyno i'w adolygu gan y Bwrdd ar yr un pryd. Yn dilyn adolygiad gan y Bwrdd, mae'r adroddiadau hyn yn rhan o gyflwyniadau blynyddol y Gorfforaeth i Medr.

## 6.4 Y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd

6.4.1 Mae'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn goruchwylio perfformiad a datblygiadau allweddol ym mhob maes sy'n ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth addysg a'r cymorth. Mae'n monitro cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, yn ogystal â chynnydd ar weithredu'r Strategaethau Addysgu a Dysgu, Cwricwlwm a Sgiliau. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu diweddariadau rheolaidd ar recriwtio, cadw, presenoldeb, asesu a chyrhaeddiad dysgwyr. Mae meysydd goruchwylio eraill yn cynnwys cyfranogiad dysgwyr, diogelu, anghenion dysgu ychwanegol a marchnata. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu Adroddiad Hunan-asesu'r Coleg yn flynyddol cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Bwrdd.

6.4.2 Mae 11 o lywodraethwyr yn aelodau o'r pwyllgor, gan gynnwys tri Myfyriwr-Lywodraethwr a'r Llywodraethwr sy'n aelod o'r Staff Addysgu.

6.4.3 Mae aelodau allweddol o'r Uwch Dîm Arwain hefyd yn mynychu cyfarfodydd:

- Is-brifathrawon
- Prifathrawon Cynorthwyol
- Cyfarwyddwr Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr
- Cyfarwyddwr Data a Chyllid
- Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu

6.4.4 Yn ystod 2024-25, cyfarfu'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd bedair gwaith ar:

- 15 Hydref 2024
- 21 Ionawr 2025
- 1 Ebrill 2025
- 10 Mehefin 2025

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod o'r pwyllgor.

## 6.5 Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

6.5.1 Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn monitro perfformiad ac yn cynghori'r Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol (gan gynnwys perfformiad, pennu cyllidebau ac iechyd ariannol), adnoddau dynol, TGCh ac ystadau. Mae'r pwyllgor yn monitro'r cynnydd ar weithredu Cynlluniau Strategol ar gyfer pob un o'r meysydd hyn a hefyd yn monitro prosiectau cyfalaf mawr.

6.5.2 Mae'r aelodaeth yn cynnwys 8 Llywodraethwr, gan gynnwys Llywodraethwr Staff Cymorth Busnes. Mae aelodau allweddol o'r Uwch Dîm Arwain hefyd yn mynychu cyfarfodydd:

- Is-brifathrawon
- Cyfarwyddwr Cyllid, Ystadau a Chyfleusterau
- Cyfarwyddwr Ymgysylltu Allanol
- Cyfarwyddwr Data a Chyllid
- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Cyfarwyddwr TGCh

6.5.3 Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2024-25 ar:

- 12 Tachwedd 2024
- 18 Chwefror 2025
- 29 Ebrill 2025
- 24 Mehefin 2025

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

### 6.6 Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth

6.6.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth yn cynghori'r Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud ag aelodaeth y Gorfforaeth gan gynnwys cyfansoddiad y Bwrdd, recriwtio Aelodau, rheoli perfformiad, datblygu Llywodraethwyr a chynllunio olyniaeth. Mae hefyd yn cynghori'r Bwrdd ar faterion llywodraethu ehangach gan gynnwys goblygiadau newidiadau deddfwriaethol ac ymgynghoriadau cenedlaethol ar lywodraethu Addysg Bellach. Mae'r pwyllgor hefyd yn monitro ac yn cynghori'r Bwrdd ar ddatblygiad Medr a'r canllawiau a'r gofynion adrodd sy'n dod i'r amlwg.

6.6.2 Cyfrifoldeb y Bwrdd yn ei gyfanrwydd yw penodi aelodau'r Gorfforaeth ond mae'r pwyllgor yn goruchwylio'r broses recriwtio ac yn cwrdd â'r holl ddarpar benodeion. Mae'r Bwrdd yn ystyried argymhellion y pwyllgor wrth gymeradwyo pob penodiad.

6.6.3 Mae'r pwyllgor yn cynnwys pum Llywodraethwr, gan gynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Gorfforaeth a'r Prifathro/Prif Weithredwr, ynghyd â dau Lywodraethwr annibynnol arall. O bryd i'w gilydd, gellir gwahodd Myfyriwr-Lywodraethwr i gymryd rhan pan fydd y pwyllgor yn cwrdd ag ymgeiswyr annibynnol i'w penodi.

6.6.4 Yn ystod 2024-25 cyfarfu'r pwyllgor chwe gwaith ar:

- 23 Medi 2024
- 19 Tachwedd 2024
- 25 Tachwedd 2024
- 11 Chwefror 2025
- 8 Ebrill 2025
- 11 Mehefin 2025

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

### 6.7 Presenoldeb yn y Gorfforaeth

6.7.1 Mae presenoldeb yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth. Os bydd presenoldeb unrhyw aelod unigol neu bwyllgor yn peri pryder, cymerir camau priodol.

6.7.2 **Presenoldeb 2024-25**

| | |
|---|---|
| Y Bwrdd | 82% |
| Pwyllgor Archwilio | 90% |
| Y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd | 81% |
| Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau | 87% |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth | 85% |
| Seminarau Strategaeth | 65% |
| Presenoldeb cyffredinol | 82% |

6.7.3 Mae'r Cod Ymddygiad, Gwerthoedd ac Ymddygiad yn nodi disgwyliadau clir o ran presenoldeb. Caiff llywodraethwyr eu hatgoffa o bryd i'w gilydd o bwysigrwydd cynnal presenoldeb da i gefnogi eu datblygiad a'u dealltwriaeth eu hunain, ac i sicrhau bod y Bwrdd yn gallu defnyddio'r ystod lawn o sgiliau a phrofiad sydd ar gael iddo.

## 7. DEILIAID SWYDDI UWCH

7.1 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am benodi, arfarnu, atal dros dro a diswyddo Deiliaid Swyddi Uwch (y Prifathro, yr Is-brifathrawon a'r Swyddog Llywodraethu). Gwneir penderfyniadau ynghylch cyflog a thelerau ac amodau Deiliaid Swyddi Uwch dan gyngor y Pwyllgor Taliadau. Mae polisïau sy'n ymwneud yn benodol â chyflogi'r unigolion hyn wedi'u nodi yn y Llawlyfr i Ddeiliad Swyddi Uwch.

### 7.2 Y Pwyllgor Taliadau

7.2.1 Cafodd y Pwyllgor Taliadau yn ystod 2024-25 ei gadeirio gan Mr Langshaw fel Cadeirydd y Llywodraethwyr ac roedd yn cynnwys yr Is-gadeirydd a dau Lywodraethwr Annibynnol arall. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod i ystyried perfformiad, telerau ac amodau a chyflogau deiliaid swyddi uwch.

7.1.2 Ym mis Rhagfyr 2024, cymeradwyodd y Bwrdd ddyfarniad cyflog ar gyfer holl staff y coleg (ac eithrio'r Deiliaid Swyddi Uwch). Cyfarfu'r Pwyllgor Taliadau ddwywaith wedi hynny. Wrth ystyried cyflog Ddeiliad Swyddi Uwch, mae'r pwyllgor yn ystyried perfformiad, data meincnodi perthnasol ac unrhyw ddyfarniad cyflog diweddar i staff y sector. Yna gwnaed argymhelliad i gymhwyso dyfarniad cyflog ar gyfer pob deiliad swydd uwch yn unol â'r hyn a ganiateir i'w roi i staff (h.y. 5.5% wedi'i ôl-ddyddio i 01/08/24). Cafodd yr argymhelliad hwn ei gymeradwyo wedyn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2025.

## 8. DATBLYGIADAU ALLWEDDOL

8.1 Roedd Iechyd Ariannol y coleg yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'r Bwrdd yn ystod 2024-25. Parhaodd y Bwrdd i gymryd rhan mewn trafodaethau manwl ar y Cynllun Gweithredu Iechyd Ariannol mewn Seminarau Strategaeth ac yng nghyfarfodydd y Bwrdd, gyda diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu drwy gydol y flwyddyn.

Gan gysylltu'n agos ag iechyd ariannol, parhaodd y Bwrdd hefyd i gymryd rhan mewn trafodaeth fanwl ar ddatblygiadau Ystadau allweddol gan gynnwys HiVE (Canolfan Peirianneg Gwerth Uchel) yng Nglynebwy a agorodd ym mis Medi 2025. Roedd y Bwrdd hefyd yn falch o weld gwaith yn dechrau tua diwedd 2025 i baratoi Campws Crosskeys ar gyfer Cam 1 ei ailddatblygu, ac mae cam sylweddol ymlaen wedi cael ei wneud erbyn hyn yn y broses o sicrhau'r cyllid ar gyfer campws newydd yng nghanol y ddinas yng Nghasnewydd.

Gyda phenodiad Is-brifathro newydd (Cwricwlwm ac Ansawdd), adnewyddodd y Bwrdd hefyd ei ffocws ar wella ansawdd yn ystod y flwyddyn. Dechreuodd gwaith hefyd i ddatblygu Cynllun Strategol newydd i arwain y coleg ymlaen am y 5 mlynedd nesaf.

## 9. SWYDDOG LLYWODRAETHU

9.1 Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent drwy gydol 2024-25 o hyd oedd Mrs Marie Carter. Mae gan Mrs Carter Dystysgrif Uwch y Sefydliad Llywodraethu Siartredig mewn Llywodraethu Corfforaethol. Mynychodd holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r Pwyllgor Taliadau.

9.2 Yn ystod 2024-25, cymerodd y Swyddog Llywodraethu ran mewn hyfforddiant a datblygiad ar y canlynol:

- Gwrth-lwgrwobrwyo
- Chwythu'r chwiban
- GDPR (Hyfforddiant rheoli uwch)
- Ymwybyddiaeth seiberddiogelwch

Bu hefyd yng Nghynhadledd Flynyddol Colegau Cymru a chymerodd ran mewn sesiynau briffio ar-lein a hwyluswyd gan Colegau Cymru. Aeth hefyd i ddigwyddiad Partneriaeth Myfyrwyr-Lywodraethwyr Medr ochr yn ochr â'r Myfyrwyr-Lywodraethwyr. Ar ben hynny, roedd mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu Addysg Bellach Cymru yn gyfle i rannu arferion gorau a thrafod datblygiadau allweddol yn y sector Addysg Bellach yng Nghymru gyda gweithwyr llywodraethu proffesiynol eraill

## 10. DATGANIAD SICRWYDD

Hyd y gŵyr yn rhesymol, mae Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent yn fodlon bod Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent wedi cyflawni ei chyfrifoldebau statudol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025. Cyflawnwyd holl fusnes y Bwrdd a'i bwyllgorau yn unol â'r canllawiau deddfwriaethol a statudol perthnasol ac Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent. Mae hi hefyd o'r farn bod gweithgareddau'r Gorfforaeth yn adlewyrchu'r disgwyliadau arfer gorau a nodir yn y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru.

**Marie Carter**
**Swyddog Llywodraethu**
**Dyddiad:**

Mae Bwrdd Corfforaeth Coleg Gwent wedi adolygu'r adroddiad hwn a chyn belled ag y gall fod yn rhesymol ymwybodol, mae'n fodlon ei fod yn gofnod cywir a theg o weithgareddau'r Gorfforaeth yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2025.

**Mrs Susan Ball**
**Cadeirydd y Llywodraethwyr**
**Dyddiad:**